Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Drwy ebost at: marineplanning@wales.gsi.gov.uk

10fed Tachwedd 2014

Annwyl Syr neu Madam,

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ddatblygu Cynllun Morol Cymru: Cwmpas Drafft, Gweledigaeth Ddrafft ac Amcanion cysylltiedig'**

*Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.*

Mae'r amgylchedd morol yn ased cenedlaethol strategol i Gymru. Mae'n ffurfio bron i hanner arwynebedd tiriogaethol Cymru ac mae'n cyflenwi buddion pwysig i gymdeithas, yn cynnwys swyddi, bwyd ac adnodd ar gyfer hamdden ac ymlacio. Dangosodd astudiaeth a gyflawnwyd yn 2006[1] fod yr amgylchedd morol ac arfordirol yn cynnal 92,600 o swyddi ac yn cyfrannu £2.5 biliwn i'r cynnyrch domestig gros.

Nid oes unrhyw gymuned yng Nghymru fwy na 50 milltir o'r môr, ac mae tua 60% o'r boblogaeth yn byw a gweithio ar yr arfordir. Mae cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol cryf felly rhwng pobl Cymru a'r amgylchedd morol ac arfordirol, ac mae cyfeiriadau at y môr yn gwau drwy hanes a thraddodiadau llenyddol Cymru. Mae'r arfordir yn bwysig o ran twristiaeth a gweithgareddau hamdden, ond mae hefyd yn ffocws o ran amddiffyn pobl ac eiddo ac mae pwysau cynyddol i'w teimlo yn hynny o beth wrth i lefel y môr godi oherwydd newid yn yr hinsawdd.

Mae amrywiaeth ac ansawdd ecosystemau morol ac arfordirol Cymru yn cael eu cydnabod drwy nifer fawr o ddynodiadau cadwraeth a threftadaeth. Mae tua 70%

[1] Cyhoeddiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 'Valuing our environment: Economic impact of the Coastal and Marine Environment of Wales' (2006).

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk
Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

o’r morlin wedi’i ddynodi o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar sail pwysigrwydd ac ansawdd ei fywyd gwyllt, o riffiau creigiog i Ddolffiniaid Trwyn Potel. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw’r unig Barc Cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig (DU) sydd wedi’i ddynodi’n bennaf oherwydd ei forlin. Mae’r dreftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog hon yw sail i ddiwydiant twristiaeth llewyrchus, sy’n cynnal nifer sylweddol o swyddi mewn cymunedau lleol ar hyd y glannau.

Mae ecosystemau morol iach a chryf yn hanfodol i gynnal y buddion economaidd gymdeithasol a diwylliannol y gallwn eu cael o’r amgylchedd morol yn enwedig i sectorau allweddol fel pysgodfeydd, dyframaethu a thwristiaeth. Mae gweithgarwch dyn yn yr amgylchedd morol – pethau fel datblygu porthladdoedd, codi agregau, pysgodfeydd ac ynni adnewyddadwy morol – yn dal i dyfu; bydd galluogi’r twf hwn, yn gynaliadwy, yn allweddol er mwyn gwireddu dyheadau Cymru o dan Fil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’n gynyddol bwysig felly ein bod yn mynd ati i reoli’r ardal forol drwy ddilyn cynllun, i alluogi Cymru i fanteisio i’r eithaf yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ar y buddion a geir drwy reoli adnoddau morol yn gynaliadwy.

Rydym felly yn mawr groesawu’r gwaith sydd ar y gweill i sefydlu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae datblygu system gynllunio forol ar draws y DU yn ffrwyth blynyddoedd lawer o waith gan Lywodraeth a gwahanol randdeiliaid, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi pwysleisio’r angen am system reoli integredig, yn cadw at gynllun, ar gyfer yr ardal forol. Rydym yn cydnabod bod y ffrâm amser er datblygu’r cynllun morol cyntaf hwn i Gymru yn heriol . Fodd bynnag, credwn y bydd modd adolygu, mireinio a gwella’r cynllun a’r broses gynllunio dros amser wrth i’n dealltwriaeth a’n profiad dyfu, er mwyn effeithio’n bositif ar ein rheolaeth ar adnoddau morol o fewn ffrâm amser 20 mlynedd y Weledigaeth sy’n cael ei chyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae gweddill y llythyr hwn yn nodi ein hymateb i Gwestiynau 1-3 o’r ymgynghoriad cyfredol. O ran ein rôl statudol ni fel ymgynghorai o dan Reoliadau Asesiad Strategol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, caiff honno ei chyflawni gan adran arall o’n sefydliad, ein Huned Asesu Strategol, a fydd yn ymateb i Gwestiynau 4 a 5 o’r ymgynghoriad ynglŷn â chwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Rydym wedi crynhoi rhai materion allweddol ar ddechrau’r ymateb hwn, a rhoddir ymateb manylach i gwestiynau unigol yr ymgynghoriad ar ôl hynny.

**Crynodeb o'r materion allweddol**

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r ymrwymiad i baratoi Cynllun Morol Cymru erbyn 2015 a'r broses a sefydlwyd yn gysylltiedig â hynny i'w wireddu. Rydym yn cydnabod mai cychwyn proses gynyddol yw hyn ac y bydd cynlluniau dilynol yn esblygu dros amser wrth i'r broses aeddfedu ac i'n dealltwriaeth ni o'r ardal forol wella.

- Pwysleisiwn mai drwy integreiddio polisi, o fewn Llywodraeth Cymru, gyda San Steffan, ac yn rhanbarthol/lleol gyda llywodraeth leol, y gwireddir y buddion allweddol a geir o ganlyniad i'r broses cynllunio morol. Dylai hyn cynnwys gosod amcanion a chanlyniadau integredig a mesuradwy i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

- Rydym yn ystyried y broses cynllunio morol, sy'n ofynnol er mwyn arfer Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem, fel y cyfrwng allweddol er gwireddu Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol o fewn ardal forol Cymru. Gan gydnabod hyn, rydym yn awgrymu hefyd mai da o beth fyddai i'r broses cynllunio morol ddechrau nodi ardaloedd morol is-genedlaethol i'w rheoli. Gellid seilio hyn ar waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i nodi ardaloedd cymeriad morwedd a'r gwaith rheoli rhanbarthol ar y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

- Her allweddol o ran rheoli adnoddau morol yw'r dystiolaeth a'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am yr amgylchedd morol, yn enwedig o'i gymharu â'r ardal ddaearol. Rydym yn cytuno felly y bydd canfod a blaenoriaethu'r gofynion tystiolaeth er mwyn darparu polisïau cynllun morol yn un rôl allweddol i'r broses gynllunio. Y sylfaen tystiolaeth hon fyddai sail elfennau morol Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol o dan Fil yr Amgylchedd.

- Un ystyriaeth dyngedfennol i'r broses cynllunio morol fydd ymdrin â'r integreiddio rhwng cynllunio a rheoli morol a daearol – gwaith a fydd, o'i gyflawni'n effeithiol, yn sicrhau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Byddem yn gobeithio gweld hyn wedi'i nodi'n well yng ngweledigaeth y cynllun morol, ac wedi'i adlewyrchu hefyd ym mholisïau'r cynllun a chanllawiau cysylltiol, ar y cyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r Bil Cynllunio (Cymru).

- Rydym yn croesawu'r cyfeiriad cryf at gymunedau lleol yn y ddogfen ymgynghori. Mae cysylltu â rhanddeiliaid, boed nhw'n gymunedau sy'n byw'n agos at y môr ac yn ei ddefnyddio, neu'n gwmnïau rhyngwladol sy'n allweddol er mwyn datblygu adnoddau allweddol fel ynni adnewyddadwy ar y môr, yn dyngedfennol er mwyn cael pobl i gefnogi polisïau'r cynllun a sicrhau llwyddiant y broses gynllunio yn y tymor hir.

## Ymateb llawn i'r ymgynghoriad

### C 1 A oes gennych sylwadau neu syniadau ar gyfer newid y weledigaeth rydym yn ei chynnig?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r weledigaeth hon i gynllunio a rheoli ardal forol Cymru mewn ffordd integredig. Fel y nodwyd, mae'n adlewyrchu targedau a blaenoriaethau allweddol o eiddo'r Llywodraeth, fel y rhai a nodwyd ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn falch o weld bod y weledigaeth hon yn cyfeirio at reoli adnoddau naturiol yn ddoeth a phwysigrwydd ecosystem forol iach oherwydd bydd hynny'n ganolog er sicrhau defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol.

Dylai'r weledigaeth sefydlu'r hanfodion er rheoli'r amgylchedd morol mewn modd integredig, gan dywys y rhanddeiliaid i gyd i weithio tuag at set o amcanion cyffredin ar gyfer moroedd Cymru. Fodd bynnag, mae'r weledigaeth, fel y'i mynegwyd ar hyn o bryd, yn rhoi'r argraff mai cyfres o amcanion digyswllt, ac o bosibl amcanion sy'n gwrthdaro â'i gilydd, yw hi. Mae gweledigaeth y Deyrnas Unedig (DU) o ran 'Clean, healthy, safe, productive, and biologically diverse oceans and seas' wedi'i mabwysiadu yng Nghymru ac mae'n gyfarwydd hefyd i randdeiliaid y DU. Mae'n fyr a diddorol a byddem yn awgrymu y gallai fod yn fan cychwyn buddiol i weledigaeth fanylach yng Nghymru ar gyfer ein hardal forol. Byddem yn awgrymu ystyried ymhellach sut mae gwneud y weledigaeth yn fyrrach, yn fwy integredig a sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau'n well yn y cyd-destun morol ac yn egluro'n gliriach beth yw rôl Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cyflawni canlyniadau a rennir. Er enghraifft, er bod sicrhau cymunedau sydd â diwylliant byw gyda'r Gymraeg yn ffynnu yn nod pwysig i Gymru, nid yw'r weledigaeth yn adlewyrchu rôl y cynllun morol yn hyn.

Byddem hefyd yn hoffi gweld pwysigrwydd cefnogi ecosystemau morol iach a chryf yn cael ei gryfhau ymhellach yn y weledigaeth hon. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu defnyddio, eu cynnal a'u gwella'n gynaliadwy. Rydym yn ystyried y Cynllun Morol Cenedlaethol fel arf allweddol i wireddu ein pwrpas ac rydym am weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y weledigaeth. Mae iechyd yr amgylchedd morol yn dyngedfennol i gynhyrchiant a thwf tymor hir rhai sectorau twf allweddol yng Nghymru, yn cynnwys twristiaeth, pysgodfeydd a dyframaethu. Dylai amgylchedd morol iach chwarae rhan bwysig hefyd yn sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy llewyrchus, cryf, iach a chydlynol. Nid yw'r weledigaeth fel mae wedi'i nodi ar hyn o bryd yn pwysleisio'r cysylltiadau hyn ac mae'n ymddangos felly fel pe bai'n bychanu rôl gyffredinol yr amgylchedd fêl sail i'r amcanion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol hyn mewn perthynas ag ardal forol Cymru.

Nodwn nad yw defnyddio'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem fel sail i gynllunio morol yn cael ei grybwyll yn benodol yn y weledigaeth hon. Yn ôl a ddeallwn, rôl y Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol sydd wedi'i nodi ym Mil yr Amgylchedd yw gwreiddio'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem mewn trefniadau rheoli. Rydym yn

disgwyl y creffir ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru o safbwynt y mater hwn, oherwydd yr ymrwymiad yn Natganiad Polisi Morol y DU fod rhaid i gynlluniau morol gael eu seilio ar Ddull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem. Mae cymhwyso Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem yn elfen bwysig hefyd o roi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar waith. Efallai y byddai'n fuddiol gwneud y ddolen gyswllt hon yn gliriach yn y Weledigaeth ei hun, felly. Mae hwn yn gyfle pwysig i egluro sut y caiff y Polisi Adnoddau Naturiol cyfredol ei roi ar waith yn yr ardal forol, yn enwedig i randdeiliaid ehangach y DU, sydd efallai yn llai cyfarwydd â manylion polisi cyfredol Cymru ar reoli'r amgylchedd.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau wrth wireddu'r weledigaeth, gan fod hynny'n rhan o roi Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem ar waith. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol yn yr amgylchedd morol, sy'n gallu bod yn bell o'r golwg ac yn bell o'r meddwl er gwaethaf y rôl bwysig y mae'n ei chwarae ym mywydau cymunedau lleol a phoblogaeth ehangach Cymru a'r DU. Byddai'n dda o beth pe gallai'r weledigaeth ddweud yn gliriach sut mae disgwyl i randdeiliaid gael eu cynnwys wrth i'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol gael ei gyflawni. Mantais ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid yw bod yna elfen o ymrwymiad a dealltwriaeth o rôl unigolion yn gofalu am y moroedd. Mae cynnwys rhanddeiliaid yn gallu annog pobl i feddwl yn ehangach a chael trafodaeth gynhwysol am sut y gallwn wneud yn fawr o'r cyfleoedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n deillio o'r amgylchedd morol. Gallai fod cyfleoedd i 'wyddoniaeth dinasyddion' lle gall defnyddwyr y môr a rhanddeiliaid eraill gefnogi'r broses gynllunio drwy gasglu data perthnasol, er enghraifft. Mae amgylchedd morol Cymru yn amlwg yn bwysig, ond mae hefyd yn werth nodi ei fod o ddiddordeb i ddiwydiannau rhyngwladol mawr sydd am ddatblygu eu busnes yn ogystal ag i filoedd lawer o ymwelwyr a defnyddwyr hamdden o Gymru a'r tu hwnt bob blwyddyn. Un her allweddol i'r broses gynllunio fydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i gyd, o'r gymuned leol hyd at y lefel ryngwladol, a datblygu amcanion integredig a all gyflawni i'r holl fuddiannau hyn.

Mae pwysleisio pwysigrwydd gwella dealltwriaeth pobl o'n moroedd hefyd yn bwysig. Mae gweithgareddau dyn wedi effeithio'n sylweddol ar ecosystemau morol dros y 100 mlynedd diwethaf, a dylai cynllunio morol integredig, a fydd yn gymorth i roi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar waith, fod yn arf pwysig er adfer iechyd a nerth amgylchedd morol Cymru. Mae sicrhau bod y dystiolaeth iawn gennym yn sail i'r penderfyniadau yr ydym yn eu hwynebu ynglŷn â defnydd cynaliadwy o'r ardal forol yn gryn her. Rhaid i ganfod y bylchau tystiolaeth sydd â blaenoriaeth a sicrhau bod y bylchau'n cael eu llenwi drwy fecanweithiau priodol fod yn ffocws allweddol i'r broses cynllunio morol. Bydd hefyd yn bwysig pennu canlyniadau mesuradwy o fewn y cyfnod cynllunio, y gellir mesur llwyddiant y cynllun yn eu herbyn . Mae'r Ymarferiad Cwmpasu Strategol a ddatblygwyd fel rhan o'r broses gynllunio wedi nodi nifer o faterion amgylcheddol allweddol, megis statws cadwraethol gwael rhai nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ein dyfroedd, a byddem am weld cynnydd cadarnhaol o ran y materion hynny o fewn yr 20 mlynedd nesaf.

Un cyfle allweddol i gynllunio morol yw cynnig mwy o sicrwydd ynglŷn â lefel y blaenoriaeth a roddir i wahanol weithgareddau a buddiannau yn yr ardal forol. Nid yw'r weledigaeth hon ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer unrhyw gyfeiriad teithio penodol. Er ein bod yn gwerthfawrogi ei bod yn anodd bod yn fwy penodol yn ofodol, yn enwedig o ran rhoi mwy o sicrwydd wrth ddatblygu'r cynllun cyntaf hwn, gallai'r Weledigaeth bwysleisio'r uchelgais i wneud hyn o fewn ffrâm amser 20 mlynedd y cynllun. Credwn fod cynnig mwy o eglurder a sicrwydd ynglŷn â'r defnydd gofodol priodol o ardal forol Cymru yn ddiben allweddol i'r cynllunio, gan sicrhau'r gweithgaredd iawn yn y man iawn.  Dylai'r nod hwn gael ei adlewyrchu'n well yn y weledigaeth felly.

I grynhoi, credwn y gellid gwella'r weledigaeth drwy

- Ddechrau gyda Gweledigaeth y DU ac ymhelaethu arni yng nghyd-destun Cymru
- Rhoi mwy o bwyslais ar rôl dyngedfennol amgylchedd morol iach fel sail i lesiant economaidd gymdeithasol ehangach, gan fabwysiadu Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem
- Egluro rôl benodol y cynllun morol wrth gyflawni amcanion ehangach y Llywodraeth
- Cadarnhau'r uchelgais i ddatblygu system i reoli'r ardal forol drwy ddilyn cynllun, fel sail i benderfyniadau, er mwyn gwneud yn fawr o'r buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Nodi'r uchelgais i gynyddu'r rhagnodi gofodol yn y cynllun a'i bolisïau dros amser, lle mae hynny'n bosibl.

**C2 Trwy roi ein gweledigaeth ar waith yn llwyddiannus, sut olwg fydd ar Ranbarth Cynllunio Morol Cymru ymhen 20 mlynedd?**

Rydym wedi nodi nifer o elfennau allweddol i'r broses gynllunio y byddem yn disgwyl iddynt fod wedi'u sefydlu, a'u bod yn cyflawni, o fewn ffrâm amser 20 mlynedd y weledigaeth hon:

1) **Gwneud penderfyniadau am yr amgylchedd morol drwy ddilyn cynllun**

Byddwn wedi sicrhau trefn penderfynu ynglŷn â'r amgylchedd morol sy'n cadw at gynllun, gyda mwy o eglurder a sicrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a defnyddwyr y môr ynglŷn â defnydd priodol o ofod morol, drwy arfer Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem wrth ddatblygu cynlluniau morol. Er bod fersiynau cyntaf y cynllun yn debygol o fod yn strategol eu natur ac ar lefel uchel, dros amser, a chyda gwell sylfaen tystiolaeth, byddem yn disgwyl i gynlluniau fod yn fwy rhagnodol yn ofodol ac yn fwy penodol er mwyn darparu'r sicrwydd y bydd ar ddefnyddwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu hangen. O fewn cyfnod 20 mlynedd y weledigaeth byddem yn disgwyl i rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu trwyddedau morol gael arweiniad cryf gan y cynllun morol, ac y bydd defnyddwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'r cynllun fel sail i ddatblygu syniadau prosiect a'r prosesau penderfynu cysylltiol.

## 2) Integreiddio amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd

Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o'r ardal forol mewn ffordd integredig sy'n dod â'r buddion mwyaf posibl i'r buddiannau hyn i gyd. Wrth ddatblygu unrhyw brosiect neu bolisi ar gyfer yr amgylchedd morol, ar lefel strategol neu leol, bydd yn arfer safonol sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gynyddu i'r eithaf yr holl fuddion (boed nhw'n gymdeithasol, yn amgylcheddol neu'n economaidd) y mae modd eu hymgorffori a'u gwireddu drwy'r gwaith, fel bod 'pawb ar ei ennill'. Er enghraifft, drwy ddatblygu'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig, dylid ystyried unrhyw fuddion cymdeithasol neu economaidd cysylltiol y gellid eu gwireddu (er enghraifft drwy ychwanegu gwerth i gynlluniau twristiaeth lleol). Yn yr un modd, wrth ddatblygu strwythurau ar y môr, fel ffermydd gwynt, gellid ystyried cyfleoedd i'w cydleoli â'r diwydiant dyframaethu neu hyrwyddo gweithgareddau pysgota lle mae'r strwythurau'n gweithredu fel riff artiffisial.

## 3) Gwell sylfaen tystiolaeth, sy'n ateb y gofyn

Dylai'r broses gynllunio ddarparu fframwaith trosfwaol i ddatblygu'r sylfaen tystiolaeth yn ymwneud â'r defnydd o'r moroedd, gan nodi bylchau yn ein gwybodaeth sy'n llesteirio'r gallu i gynllunio ar gyfer gwahanol ddefnyddiau a gwneud penderfyniadau ynglŷn â nhw. O fewn 20 mlynedd byddwn wedi gwella'r sylfaen tystiolaeth hon yn sylweddol, gan ein galluogi i wneud y defnydd gofodol gorau o'r amgylchedd morol a sicrhau bod y gweithgareddau iawn yn digwydd yn y man iawn. Bydd y cyfyngiadau amgylcheddol y mae'r amgylchedd morol yn eu rhoi ar wahanol ddefnyddiau, ac effeithiau cyfun y defnyddiau hyn, wedi'u hasesu'n well a byddwn yn eu deall yn well. Byddwn, felly, yn gallu rheoli ecosystemau morol Cymru'n well o fewn eu cyfyngiadau gweithredol.

Byddem yn disgwyl i'r broses gynllunio gyfrannu at broses yr Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sy'n cael ei chynnig o dan Fil yr Amgylchedd, a bod yr Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol hwythau yn eu tro yn dylanwadu ar y broses gynllunio. Ar hyn o bryd rydym yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu Ymarferiad Cwmpasu Strategol sy'n tynnu'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y broses cynllunio morol ynghyd a byddem yn awgrymu mai dyma ddylai ffurfio elfen 'forol' hanfodol Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn y dyfodol.

## 4) Cefnogi Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol

Bydd cysoni priodol ar y systemau cynllunio daearol a morol wedi golygu bod modd rheoli'r rhyngwyneb tir-môr yn well. Mae gweithgareddau ar y tir, megis gollyngiadau amaethyddol i gyrsiau dŵr, yn effeithio'n fawr ar yr amgylchedd morol. Yn yr un modd, mae gweithgareddau ar y môr, fel adeiladu seilwaith ynni ar y môr, yn golygu bod rhaid cael ffyrdd o ddod â'r ynni hwn i'r lan i gyrraedd y grid cenedlaethol a chyflenwi  cymunedau. Bydd gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru rôl yn hwyluso cynllunio integredig a phenderfyniadau integredig ar yr arfordir, sy'n adlewyrchu'r berthynas bwysig rhwng tir a môr.

Mae hwn yn gyfnod o ddatblygiadau a newidiadau polisi cyflym yng Nghymru, wrth i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd, Bil Cynllunio (Cymru) ynghyd â'r cynllun morol cyntaf gael eu datblygu. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn dod ynghyd yn ofodol ar yr arfordir felly mae'n bwysig sicrhau eu bod yn asio â'i gilydd i leihau'r potensial ar gyfer gwrthdaro a dryswch yn y parth arfordirol, a hyrwyddo penderfyniadau sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r rhyngweithio rhwng tir a môr. Yn arbennig, byddem yn awgrymu y bydd canllawiau ar y Cynllun Morol Cenedlaethol ar gyfer cynllunwyr daearol yn help i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar y tir yn gydnaws â'n hamcanion ar gyfer yr ardal forol.

Mae'r broses cynllunio morol yn un cyfle i egluro'r berthynas â phrosesau polisi gwahanol ond ategol sy'n cael eu datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn dyngedfennol, byddem yn edrych ar y Cynllun Morol Cenedlaethol fel y prif fecanwaith er datblygu a chyflawni Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol yn yr ardal forol. Bydd hefyd yn un o'r arfau sy'n helpu i wireddu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol, law yn llaw â'r system gynllunio ddaearol ac yn arbennig â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a gynigir drwy'r Bil Cynllunio (Cymru).

### 5) Ecosystemau morol iach a chryfach

Byddwn wedi cwblhau'r gwaith o greu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n gydlynol yn ecolegol ac yn cael eu rheoli'n dda, yn ardal y cynllun morol, a bydd y broses cynllunio morol yn help i reoli'r rhwydwaith hwn yn effeithiol ac yn dylanwadu ar y safleoedd a ddewisir lle mae hynny'n bosibl. Bydd proses a pholisïau'r Cynllun Morol hefyd yn cyfrannu tuag at gyrraedd Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Bydd gennym fwy o brofiad a dealltwriaeth o sut mae adfer ecosystemau morol sydd wedi diraddio, a bydd prosiectau ymarferol ar waith i adfer a gwella ardaloedd diraddedig, yn unol â'n hymrwymiadau o dan WFD, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, Aichi a'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Effaith ganlyniadol prosiectau o'r fath fydd darparu buddion i'r amgylchedd ehangach, cymdeithas a'r economi.

### 6) Cymunedau iach a chryfach

Bydd rôl bwysig cynefinoedd arfordirol fel morfeydd heli a thwyni tywod yn lliniaru a chryfhau yn erbyn newid yn yr hinsawdd, a'r buddion i gymdeithas sy'n gysylltiedig â hynny, yn cael ei chydnabod yn llawn a bydd yn ystyriaeth bwysig wrth reoli'r morlin.

Bydd gennym well dealltwriaeth o'r berthynas rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd morol, er enghraifft drwy weithgareddau adloniant a hamdden, a byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar fuddion o'r fath. Bydd mwy o bobl yn gweld gwerth yn yr amgylchedd morol oherwydd y cyfleoedd

hamdden y mae'n eu darparu a'r bywyd gwyllt sydd ynddo, a byddant yn gweithredu i leihau effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd ac ar fwynhad pobl eraill o'r adnodd hwn.

**C3 Ydyn ni wedi cynnwys yr holl benawdau ac adrannau sydd eu hangen yn eich barn chi? Cynigiwch unrhyw beth arall y carech ei awgrymu.**

Rydym yn croesawu'r trosolwg cynnar hwn o gwmpas a chynnwys y cynllun morol. Rydym hefyd yn croesawu'r strwythurau llywodraethu sydd wedi cael eu sefydlu yn y Rhaglen Bontio Forol, sy'n fodd i gysylltu'n agos ac yn gynnar yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, yn ehangach â San Steffan a hefyd â rhanddeiliaid allanol. Credwn y bydd y strwythurau hyn, a'r perthnasoedd a'r trafodaethau a gaiff eu hyrwyddo, yn rhoi 'gwerth ychwanegol', sef prif amcan cynllunio morol integredig.

Ar lefel mor uchel, mae llawer yr hoffem ei weld yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun y gellid ei gwmpas yn yr amlinelliad arfaethedig. Mae'r sylwadau isod felly yn pwysleisio rhai o'r pynciau a'r materion y credwn ni y dylai dogfen y cynllun morol ymdrin â nhw (yn ychwanegol at y rhai yr ydym wedi cyfeirio atynt eisoes yn ein hymateb i C2); nid yw o reidrwydd yn rhestr o feysydd ychwanegol y dylid eu hychwanegu at yr amlinelliad.

Mae'n arbennig o werthfawr gweld bod sylw penodol yn cael ei roi yng nghwmpas y cynllun i'r rhyngwyneb tir-môr a Rheolaeth Arfordirol Integredig. Credwn fod gan y broses cynllunio morol rôl bwysig yn cefnogi rheolaeth fwy integredig ar yr ardal arfordirol. Mae cyfran fawr o boblogaeth Cymru'n byw ger yr arfordir, felly mae'r ardal hon yn bwysig i'r economi leol ac o ran y nodweddion amgylcheddol sensitif a'r prosesau ffisegol a geir yno. O ystyried hynny, mae cynllunio morol, os caiff ei gysoni'n dda â'r gyfundrefn cynllunio daearol, yn cynnig cyfle pwysig i reoli'r rhyngwyneb hwn mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Nodwn fod Cylchlythyr Cynllunio'r Alban[2] wedi cael ei ddrafftio i ddarparu canllawiau ar y berthynas rhwng cynllunio morol a daearol. Fel rhan o ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, rydym yn awgrymu y dylid ystyried datblygu canllawiau priodol tebyg i Gymru. Byddai'n dda o beth cysoni hyn â'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu'r Bil Cynllunio (Cymru).

Croesawn yn arbennig y ffaith fod y cynllun yn cynnwys adran sylweddol ar Adnoddau Naturiol. Bydd dogfen y cynllun morol yn gyfle pwysig i egluro rôl y broses cynllunio morol yn rhoi polisi Rheolaeth Integredig ar Adnoddau Naturiol y Llywodraeth ar waith yn genedlaethol ac ar raddfa ardal, gan amlygu'r berthynas rhwng y gwaith hwn yng Nghymru a'r ymrwymiad i ddatblygu cynlluniau morol wedi'u seilio ar Ddull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem, fel y nodwyd yn Natganiad Polisi Morol y DU. Am y rheswm hwn, rydym yn awgrymu y dylai'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem fod yn ffocws penodol yn adran 10 – o bosibl o dan 'egwyddorion trosfwaol', neu fel arall fel is-adran ei hun.

[2] 'Planning Scotland's Seas. The relationship between the statutory land use planning system and marine planning and licensing'. Cylchlythyr drafft. Llywodraeth yr Alban, Gorffennaf 2013.

Er ein bod yn cydnabod gwerth cynnwys cadwraeth natur yn yr adran ar 'Adnoddau Naturiol', awgrymwn nad yw 'Statws Amgylcheddol Da' na 'Chadwraeth Natur' (yn hytrach na bioamrywiaeth a geoamrywiaeth) yn adnoddau naturiol eu hunain, ond yn hytrach yn set o bolisïau perthnasol yn ymwneud â gwarchod adnoddau naturiol a'u rheoli'n gynaliadwy. Yn arbennig, awgrymwn fod angen adran ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar eu pen eu hunain. Mae hyn oherwydd bod y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei hun yn cynrychioli set bwysig o 'bolisïau' gofodol, yn ogystal â bod yn ymrwymiad pwysig gan y Llywodraeth i gyflawni nifer o ysgogiadau – a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn flaenllaw yn eu plith.

Un rôl dyngedfennol i'r cynllun fydd sicrhau integreiddio rhwng gwahanol bolisïau yn y ddogfen a allai ryngweithio mewn rhyw ffordd. Mae gan yr amgylchedd morol y potensial i gynnig mwy o gyfleoedd na'r tir i gydleoli cyfleoedd cydnaws ond gwahanol, er enghraifft. Dylai ffocws y cynllun, o'r dechau i'r diwedd, fod ar gynyddu'r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i'r eithaf, yng nghyd-destun strategol y cynllun ac o ran dylanwadu ar sut y caiff prosiectau eu datblygu'n fwy lleol. Credwn mai dyma'r gwerth ychwanegol neilltuol sydd i'w gael o'r broses cynllunio morol, o'i chymharu â'r dull mwy sectoraidd ar hyn o bryd o ymdrin â rheoli'n hadnoddau morol. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn awgrymu y dylid, ym mhennod pob sector, edrych yn fanwl ar y rhyngweithio allweddol â buddiannau amgylcheddol, er enghraifft, a datblygu polisïau cysylltiol, neu gyfeirio ymlaen at bolisïau felly (o fewn y cynllun a'r tu allan iddo) fel sy'n briodol. Nodwn y bydd adran 24, 'integreiddio gofodol', hefyd yn fuddiol yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, er mwyn iddo fod o fudd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, awgrymwn y dylid hefyd asesu rhywfaint ar bolisïau/amcanion nad ydynt yn ategu'r weledigaeth, yn ogystal â'r rhai sydd.

O ystyried y rôl allweddol y bydd y Cynllun Morol Cenedlaethol yn ei chwarae yn ein barn ni o ran datblygu a chyflawni'r polisi Rheoli Adnoddau Naturiol (fel y nodwyd yn ein hymateb i C2), byddem yn cynghori y byddai'n dda o beth hefyd pe bai'r cynllun yn edrych yn ofalus ar ardaloedd rheoli gofodol priodol ar gyfer yr amgylchedd morol, a fyddai'n addas at ddibenion datblygu a rheoli polisi is-genedlaethol yn y dyfodol. Gallai hyn hwyluso'r ffordd i ystyried Rheoli Adnoddau Naturiol yn yr amgylchedd morol ymhellach er mwyn cysoni'r cynllun morol â'r gwaith datblygu polisi yn yr ardal ddaearol drwy Fil yr Amgylchedd. Gallai gwaith gofodol allweddol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fod yn sail i ddewis yr ardaloedd hynny. Byddai hyn yn cynnwys datblygu ardaloedd cymeriad morwedd cenedlaethol, a gwaith i ddiffinio unedau rhanbarthol er mwyn rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru yn well. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y naill a'r llall o'r rhaglenni gwaith hyn ac mae'n ystyried y rhain yn gyd-destun gofodol addas ar gyfer trafod cymhwyso prosesau cynllunio a rheoli morol ar raddfa lai wrth edrych eto yn y dyfodol ar gynllunio.

Yn olaf, rydym yn cydnabod ei bod yn holl bwysig cael y broses yn iawn, wrth ddatblygu'r cynllun cyntaf. Fodd bynnag, awgrymwn mai'r nod yn y pen draw o ran

cynllunio yw datblygu amcanion clir, mesuradwy ac integredig sy'n sicrhau y gall y buddion yr ydym yn eu ceisio – gwell penderfyniadau, a gwneud yn fawr o'r ardal forol er mwyn cael enillion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol – ddod yn realiti o fewn gweledigaeth 20 mlynedd yr ymgynghoriad hwn. Edrychwn ymlaen felly at barhau i weithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu amcanion realistig a dichonadwy y gellir eu cyflawni drwy'r broses cynllunio morol newydd i Gymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r sylwadau hyn, mae croeso ichi gysylltu â'n Cynghorydd Rheoli Adnoddau Morol, Kirsty Lindenbaum ar kirsty.lindenbaum@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, 03000 654925, yn y lle cyntaf.

Yn gywir / Yours faithfully

Rhian Jardine

Head of Sustainable Communities

Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy